



## **Polisi [Adran Addysg Gwynedd]**

### **Darparu ar gyfer rhieni ifanc a menywod beichiog.**

#### **1. Cyflwyniad.**

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â rhieni ifanc a menywod beichiog o fewn ysgolion Gwynedd.

#### **2. Cyd-destun.**

2.1 Mae gan Brydain y raddfa uchaf o ferched yn beichiogi yn eu harddegau yng ngorllewin Ewrop. Mae'r sefyllfa yng Nghymru ychydig yn waeth na Lloegr. Mae sefyllfa Gwynedd yn eu gosod well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

2.2 Mae nifer o arolygon yn dangos bod y rhan fwyaf o famau o oed ysgol yn gadael addysg yn 16 oed hefo ychydig neu ddim cymwysterau. Yn aml hefyd mae eu cymhelliant yn isel. Golyga hyn bod eu siawns o lwyddo yn y farchnad lafur yn isel.

2.3 Yn aml hefyd mae hunan barch y merched hyn yn wael. Mewn nifer fach o achosion mae gan y merched ifanc fwy o gymhelliant ynglyn au haddysg ac maent yn awyddus i gynllunio ar gyfer eu dyfodol.

#### **3. Datganiad o fwriad.**

3.1 Bydd Adran Addysg Gwynedd yn cynghori a chynorthwyo ysgolion i weithredu eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau tuag at rieni ifanc a menywod beichiog i sicrhau eu bod yn cael mynediad at y cwricwlwm cenedlaethol ac yn cyrraedd eu potensial addysgol, ac yn sicrhau eu bod yn cael y gynhaliath addysgol briodol pan yn feichiog.

3.2 Bydd hefyd angen cynhaliath briodol ar ddynion ifanc os dawn wybyddus eu bod ar fin bod yn dad.

3.3 Ceisir hefyd sicrhau bod gyd weithio effeithiol rhwng yr holl asiantaethau sy'n ymwneud a rhieni ifanc.

#### **4. Fframwaith Statudol.**

Deddf Addysg 1996

Deddf Addysg 1998

Deddf Plant 2004.

#### **5. Egwyddorion Sylfaenol**

5.1 Ni ddylai pobl ifanc sy'n dod yn rhieni golli'r cyfle i gwblhau eu haddysg.

5.2 Dylai merch ifanc gael y cyfle i aros mewn addysg llawn amser yn ystod beichiogrwydd oni bai am amgylchiadau personol neu feddygol.

5.3 Nid yw beichiogrwydd byth yn rheswm dros waharddiad o ysgol.

5.4 Lle mae'n bosibl dylid rhoi dewis i ferch feichiog fynychu ysgol prif ffrwd neu ddarpariaeth fwy unigol y tu allan i'r ysgol.

5.5 Dylid cadw enw'r disgybl ar gofrestr yr ysgol waeth beth fo'r trefniadau addysgol a dylid cadw golwg cyson ar ei chynnydd.

## **6.Amcanion Adran Addysg Gwynedd.**

6.1 Sicrhau bod pob disgybl yn cael yr addysg sy'n gymwys ar eu cyfer, gan gynnwys disgyblion o oed addysg statudol sydd ar ddod yn rhieni.

6.2 Ymdrin ag unrhyw ferch a ddaw'n feichiog, a sydd â ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, yn yr un modd ag unrhyw ferch ysgol arall a fydd yn feichiog.

6.3 Bydd swyddog o'r gwasanaeth lles ysgolion yn cael ei ddynodi i ddelio â materion penodol a gyfyd ynglŷn â rhieni ifanc.

6.4 Bydd yr Adran yn cadw bas data ar gynnydd pob disgybl sy'n derbyn addysg y tu allan i ysgol prif ffrwd.

6.5 Bydd yr Adran yn darparu hyffoddiant i bersonau addas o fewn ysgolion.

6.6 Bydd yr Adran yn cydlynu gwaith partneriaethol rhwng gwahanol asiantaethau er mwyn hyrwyddo arfer dda a chanllawiau gweithredu ymarferol i ysgolion. Bydd y partneriaid yn cynnwys y canlynol

Gwasanaethau Cymdeithasol

Awdurdod Iechyd

Gwasanaeth Ieuencid

Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc

Gwasanaeth Gyrfaoedd

Colegau Addysg Bellach

## **7. Dyletswyddau Corff Llywodraethu ysgol.**

7.1 Mae'n ddyletswydd ar lywodraethwyr ysgolion i sicrhau mynediad i adnoddau a darpariaeth briodol i bob disgybl.

7.2 Rhaid i gyrrff llywodraethu sicrhau cydymffurfiant gyda'r deddfau perthasol.

## **8.Cyfrifoldebau a dyletswyddau penaethiaid ysgolion.**

8.1 Dylai pennaeth sicrhau bod anghenion rhieni ifanc yn cael eu hadnabod a'u diwallu.

8.2 Dylai pob ysgol adnabod aelod o staff a fydd yn goruchwyllo ac yn monitor gweithrediad y polisi.

8.3 Bydd yr aelod staff yn goruchwyllo anghenion addysgol unrhyw ferch a fydd yn feichiog, a hefyd yn ei chyfeirio at unrhyw asiantiaethau allanol a all ei helpu, os bydd angen.

8.4 Bydd yr aelod staff yn sicrhau rhaglen unigol a fydd yn gymorth i'r unigolyn gyrraedd ei photensial academaidd.

8.5 Bydd yr ysgol yn creu cynllun ail intigreiddio ar gyfer y ferch wedi'r enedigaeth.

8.6 Bydd yr ysgol yn ceisio cadw'r disgybl ar y gofrestr. Efallai y bydd y pennaeth yn ystyried nad yw'r ysgol yn amgylchedd priodol i ferch feichiog. Ond ni all ddod i'r farn hon ar sail iechyd a diogelwch, ac ni all ei gwahardd oherwydd ei bod yn feichiog. Gall penderfyniad ar leoliad addysgol arall gael ei wneud ar dir meddygol neu ar gais y ferch ei hun. Pe bai hyn yn digwydd bydd yr ysgol yn cadw mewn cyswllt agos â'r ferch.

## **9. Casgliad.**

9.1 Mae darpariaeth ar ei orau pan fo'r Adran Addysg ac ysgolion yn buddsoddi yn ddigonol i gynnal rhieni ifanc ac i sicrhau ail intigreiddio llwyddiannus yn ôl i addysg.

9.2 Gwelir canlyniadau da pan fo ysgolion yn magu agweddau cynhaliol a sensitif yn eu rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol.

9.3 Mae'r unigolyn yn fwy tebygol o gael canlyniadau addysgol da pan fo systemau cynhaliol mewn ysgol a lle gall mam ifanc fanteisio ar ddarparieth gofal dydd a thrafnidaeth gyhoeddus cyfleus.

Dyddiad Mabwysiadu'r polisi yn wreiddiol:

Cadeirydd y Corff Llywodraethwyr:

Pennaeth:

Dyddiad Adolygu'r Polisi: